**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Rhagfyr 2011**

## Gohebiaeth Arolygiad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am yr ohebiaeth a anfonwyd yn ddiweddar i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (AGID) i fynd ati'n rhagweithiol i roi gwybod i'r AGID am y mesurau y mae'r Gwasanaeth wedi eu cymryd er mwyn ymdrin â'r argymhellion yn dilyn eu harolygiad o'r Gwasanaeth yn Rhagfyr 2009.

## Y Cefndir

2 Ym Mawrth 2009, cafodd y Gwasanaeth wybod o fwriad yr AGID i gynnal arolygiad o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru fel rhan o sampl o wyth gwasanaeth tân ac achub trwy Brydain. Cynhaliwyd yr arolygiad yn Rhagfyr 2009.

3 Roedd yr arolygiad yn ystyried y modd y mae iechyd a diogelwch yn cael ei reoli'n gyffredinol, ond roedd yn canolbwyntio'n arbennig ar y meysydd canlynol:

- hyfforddiant a chymhwysedd yn sgiliau craidd diffoddwyr tân, gan gynnwys offer anadlu a'r gweithdrefnau cysylltiol; hyfforddiant ymddygiad tân mewn cydrannau
- cymhwysedd ar gyfer meistroli digwyddiadau
- darparu gwybodaeth risg-gritigol er mwyn rhoi gwybod am benderfyniadau ar yr ochr weithredol.

4 Wedi derbyn adroddiad yr AGID ar yr arolygiad, bydd yr Aelodau'n cofio bod papur yn amlinellu cynllun gweithredu'r Gwasanaeth er mwyn ymdrin ag argymhellion yr AGID wedi dod gerbron cyfarfod y Panel Gweithredol ym Mai 2010. Nodwyd nad oedd unrhyw ymateb i gynllun gweithredu'r Gwasanaeth i gwrdd â'r argymhellion wedi dod i law gan yr AGID, ac mae'r sefyllfa'n parhau felly.

**Gwybodaeth**

5 Penderfynwyd y byddai'n briodol, ddwy flynedd union wedi arolygiad yr AGID o'r Gwasanaeth, i fod yn rhagweithiol ac ysgrifennu i roi gwybod i'r AGID am y cynnydd a wnaed wrth gwblhau'r cynllun gweithredu a mynd i'r afael â'u hargymhellion.

6 Mae'r llythyr sydd ynghlwm, ac a anfonwyd i'r AGID, yn ymdrin â'r camau penodol a gymerodd y Gwasanaeth er mwyn mynd i'r afael â phedwar argymhelliad yr AGID.

**Argymhelliad**

7 Bod yr Aelodau'n nodi'r adroddiad, ynghyd â'r cynnydd y mae'r Gwasanaeth wedi ei wneud wrth fynd i'r afael ag argymhellion yr ATID fel yr amlinellir yn y llythyr sydd ynghlwm.

Rhagfyr 2011

Gary Martin
Arolygydd Iechyd a Diogelwch Ei Mawrhydi
Uned 7 & 8 Edison Court
Ffordd Ellice
Parc Technoleg Wrecsam
Wrecsam
LL13 7YT

Annwyl Mr. Martin

**Rheoli Iechyd a Diogelwch yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru Rhagfyr 2009**

Fel y gwyddoch, mae dwy flynedd ers i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch gynnal arolygiad o'r Gwasanaeth, a darparu'r adroddiad a enwir uchod a oedd yn cynnwys pedwar argymhelliad a nifer o sylwadau ar farn yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynglŷn â'r modd yr oedd y Gwasanaeth yn perfformio.

Fel swyddog cyswllt arweiniol y Gwasanaeth ar gyfer yr arolygiad, pennaeth iechyd a diogelwch a chyflwyno gwasanaethau'r ochr weithredol yn y Gwasanaeth, mae'r Prif Swyddog Tân, Simon Smith, wedi gofyn i mi ysgrifennu atoch ar ei ran i roi gwybod ichi am y cynnydd y mae'r Gwasanaeth wedi ei wneud wrth ymdrin ag argymhellion yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn dilyn yr arolygiad.

Byddwch yn cofio fy mod, ym mis Mai 2010, wedi anfon copi o gynllun gweithredu ar y modd yr oedd y Gwasanaeth yn bwriadu ymdrin â'r argymhellion a oedd yn yr adroddiad. Bellach, mae llawer o'r gwaith hwnnw wedi ei gwblhau, ond fel model yr HSG 65 ei hun, cydnabyddir mai proses ailadroddol o archwilio ac adolygu yw cynnal perfformiad o ran Iechyd a Diogelwch, a hynny fel bod y Gwasanaeth yn gallu sicrhau perfformiad yn barhaus o ran iechyd a diogelwch ymhob agwedd.

Rwyf wedi tynnu sylw at bob argymhelliad yn ei dro, ynghyd â chamau'r Gwasanaeth hyd yn hyn. Roedd yr argymhelliad cyntaf yn datgan:-

**Dylai'r gwasanaeth adolygu'r trefniadau iechyd a diogelwch sydd mewn lle er mwyn sicrhau ymddiriedaeth, cyfranogiad a rhan y gweithwyr. Dylai'r adolygiad ystyried yr anawsterau a geir wrth fewnosod y system Cofnod Datblygiad Personol, yn ogystal ag ymchwilio i'r canfyddiad o ddiffyg ymgynghori â gweithwyr wrth gyflwyno dulliau newydd o weithio."**

Mae'r Gwasanaeth wedi adolygu'r trefniadau sydd mewn lle, ac o ganlyniad, mae wedi addasu'r broses o ymgysylltu â'r corff cynrychioliadol. Mae'r Dirprwy Brif Swyddog Tân yn cadeirio cyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn rheolaidd gydag Undeb yr FBU, prif swyddogion eraill a rheolwyr maes. Mae'r rheolwyr yn gallu briffio am bob maes gwaith a wneir gan y Gwasanaeth fel ffordd o greu llwyfan ar gyfer deialog agored am faterion, a rhoi cyfle i'r corff cynrychioliadol ymgysylltu â'r rheolwyr.

Cafodd y fersiwn electronig o'r system Cofnod Datblygiad Personol ei threialu mewn gorsafoedd, gyda'r defnyddiwr yn rhoi adborth, ac o ganlyniad i hynny mae'n cael ei gyflwyno'n llwyr ar rwydwaith TG y Gwasanaeth. Mae rheolwyr y Gwasanaeth ar bob lefel yn gallu cael mynediad at y system, a'i monitro yn lleol ac yn ganolog. Erbyn hyn, mae'r Cofnod Datblygiad Personol wedi ei fewnosod yn y ffordd y mae'r Gwasanaeth yn monitro cymhwysedd staff yr ochr weithredol ac yn cynllunio eu datblygiad unigol ac ar y cyd.

Roedd yr ail argymhelliad yn datgan:-

**"Adolygwch y trefniadau sydd mewn lle i alluogi rheolwyr lleol i gyflawni eu rôl wrth ddarparu gweithlu cymwys. Dylai'r adolygiad gynnwys pa mor effeithiol yw'r mecanweithiau cefnogol sydd yn eu lle ar hyn o bryd (e.e. IDFO, archwiliad, ayyb), yn ogystal â materion rheolaethol lleol a'r trefniadau monitro sydd yn eu lle."**

Yn dilyn ailstrwythuro'r Gwasanaeth yn Ebrill 2011, cyflwynwyd system lle bo rheolwr neu hyfforddwr wedi cael ei ddyrannu i bob gorsaf y system dyletswydd yn ôl y galw.  Mae un o'r saith Rheolwr Ymateb, sydd wedi eu lleoli yn ôl ardaloedd, mewn cysylltiad ag adran Weithrediadau ganolog y Gwasanaeth mewn perthynas â gofynion pob goraf unigol o ran datblygu a chymhwysedd. Mae'r ailstrwythuro wedi sicrhau bod rheolwr neu hyfforddwr ar gael i fynd i orsaf bob wythnos ac adrodd yn ôl i'r Rheolwr Ymateb ynglŷn â darpariaeth a chynnydd. Mae hyn yn rhoi cyfle i ledaenu gwybodaeth i bob gorsaf yn gyflym. Mae'r gefnogaeth hon wrthi'n cael ei hadolygu fel rhan o asesiad rheolaidd o effeithiolrwydd yr ailstrwythuro.

Roedd y trydydd argymhelliad yn datgan:-

**Sicrhewch fod y systemau sydd mewn lle i gefnogi'r unigolion llai profiadol sydd mewn swyddi meistroli digwyddiadau yn rhai addas i'r pwrpas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac yn gywir.**

Pan fyddant yn gofalu am beiriant a'r cefnogaeth a gynigir ar safle digwyddiad, bydd pob rheolwr digwyddiadau yn cael ei gysgodi gan swyddog gweithredol. Bob blwyddyn, bydd pob rheolwr digwyddiadau hefyd yn gwneud efelychiad cyfrifiadurol fector (meddalwedd), a chyda dyfodiad system Sicrwydd Gweithredol newydd, bydd pob rheolwr digwyddiad yn cael ei arsylwi o leiaf unwaith y flwyddyn, naill ai mewn digwyddiad neu dan amodau efelychiad, a hynny er mwyn adnabod meysydd o gryfder a lle i ddatblygu.

Roedd yr olaf o'r pedwar argymhelliad yn gofyn:

**"Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod system gadarn yn ei lle ar gyfer sicrhau ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir gan hyfforddwyr."**

Mae'r adran Safonau Perfformiad sydd newydd gael ei chynnwys o fewn y Gwasanaeth wedi datblygu rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer pob un o hyfforddwyr yr ochr weithredol. Proses gylchol a pharhaus yw hon. Hefyd, mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru wedi asesu trwy gymheiriaid y modd y mae cyrsiau gloywi offer anadlu yn cael eu cyflwyno, a hynny fel rhan o ddull Cymru gyfan o ymdrin â sicrhau ansawdd hyfforddiant ar gyrsiau risg-gritigol.

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod mai dim ond cip yw hwn ar yr hyn yr ydym yn parhau i'w wneud i wella ymhob agwedd ar ein perfformiad, a hynny er mwyn sicrhau gweithlu diogel a chymwys, ac rydym yn eu cymeradwyo i chi. Os hoffech drafod cynnwys y llythyr hwn ymhellach, cysylltwch â mi.

Yn gywir

Paul Claydon
**Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**